

# Llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus – Y broses

Ni ddylid symud llwybr hawl tramwy cyhoeddus oni bai fod y newid wedi ei awdurdodi yn gyntaf drwy orchymyn cyfreithiol, a adwaenir fel gorchymyn gwyro. Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i wneud cais i Gyngor Gwynedd am ganiatâd i symud llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig. Mae gwahanol reolau yn gymwys i wyro cilffordd sy'n agored i bob traffig.

## **Pryd y gellir gwyro llwybr?**

Bydd gwriad ond yn cael ei ganiatáu os yw'r cynnig yn cwrdd â rhai gofynion penodol a nodir yn Neddf Priffyrdd 1980. Rhaid i'r gwriad arfaethedig fod er budd y perchennog, deilydd neu brydlesai y tir mae'r hawl tramwy yn ei groesi neu er budd y cyhoedd a rhaid i'r llwybr newydd beidio bod yn sylweddol llai cyfleus i'r cyhoedd. Yn fwy na dim, mae'n rhaid bod y gwriad yn hwylus. Wrth benderfynu os yw'n hwylus byddwn yn ystyried mwynhad y cyhoedd o'r holl lwybr ac effaith y gwriad ar dir arall. Mae gan Parc Cenedlaethol Eryri hefyd y pŵer i wyro llwybrau i alluogi datblygu i ddigwydd yn eu hardaloedd.

Gallwn hefyd lunio gorchymynion gwyro i wella diogeledd ysgolion ac i leihau trosedd, ond hoffem i'r rhain gael eu trafod gyda ni cyn fod cais yn cael ei gyflwyno, gan fod ystyriaethau gwahanol yn gymwys.

## **Pwy sy'n gallu gwneud cais?**

Gall unrhyw un wneud cais am wyriad, ond byddem yn annhebygol o gytuno i wyriad heb ganiatâd perchnogion a deiliaid y tir mae'r hen lwybr a'r llwybr newydd yn ei groesi a bydd angen tystiolaeth o'r caniatâd hwnnw gyda'r cais.

## **Faint o amser mae'n ei gymryd?**

Rydym yn gobeithio gwneud penderfyniad ar y cais cyn pen chwe mis (mae hi'n cymryd cymaint â hyn oherwydd ein bod angen amser i ymgynghori gydag eraill am y cynnig). Hyd yn oed pan fyddwn yn cytuno i lunio gorchymyn fe fydd yn cymryd o leiaf chwe mis arall cyn fo'r prosesau cyfreithiol wedi eu cwblhau. Os yw'r gorchymyn yn cael ei herio gall gymryd cryn dipyn yn fwy.

## **Beth yw'r gost?**

Ni ellir cwblhau'r gwriad hyd nes fo'r llwybr newydd mewn cyflwr da. Byddwn yn nodi unrhyw waith sydd angen ei wneud cyn i ni lunio gorchymyn gwyro ond, os yw'r gwriad yn mynd rhagddo mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymgymryd â'r gwaith er ein bodlondeb, ar ei gost ei hun. Bydd gennym y pŵer i wneud y gwaith angenrheidiol ac i adfer y gost gan yr ymgeisydd os yw'n methu a'i wneud.

Byddwn yn codi tâl ar yr ymgeisydd am yr amser rydym yn ei dreulio yn prosesu cais cyn fo gorchymyn yn cael ei lunio fel a restrir isod ac am y gost ei hun o hysbysebu'r gwriad yn y wasg leol (oddeutu £1,000, yn dibynnu ar hyd yr hysbyseb a'r papur newydd dan sylw).

## **Strwythur Ffioedd Presennol**

Efallai y bydd hi'n ofynnol i ymgeisydd dalu iawndal i unrhyw un sydd a'i dir yn cael ei ddibrisio o ganlyniad i'r gwriad.

Gallwn ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeisydd arwyddo cytundeb gyda ni i dalu'r costau a'r treuliau hyn.

## **Pwy sy'n penderfynu a ddylai llwybr gael ei wro?**

Yn y lle cyntaf, ni sy'n gwneud hyn. Bydd y swyddog achos yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor o dan y cynllun dirprwyo a fydd yn penderfynu a ddylid llunio gorchymyn gwro ai peidio. Er hynny, mae llunio gorchymyn yn broses gyhoeddus ac os ydym yn derbyn gwrthwynebiadau iddo efallai y byddwn yn gwrthod mynd â'r mater ymhellach, neu ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol er penderfyniad. Gall hyn olygu ymchwiliad cyhoeddus, neu wrandawriad neu gael ei drin drwy gyflwyniadau ysgrifenedig.

Dalier sylw nad oes raid i ni lunio gorchymyn gwro, hyd yn oed os yw yn cydymffurfio gyda gofynion y ddeddfwriaeth. Hyderwn drwy ddarparu cyngor yn Rhan II o'r canllaw y bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i gynnig gwiriadau fydd yn gwella'r rhwydwaith neu yn cynnig gwell cyfleoedd mynediad i'r cyhoedd. Cadwn yr hawl i beidio cytuno i wyriadau sydd ddim yn gwneud hyn. Er hynny, fe fyddwn yn ystyried pob cais ac yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniad.

## **Camau Cyntaf**

### **'Rydym yn cynghori ymgeiswyr yn gryf i drafod eu hachos gyda'r Swyddfa Hawliau Tramwy yn y lle cyntaf.**

1. Argymhellwn fod unrhyw un sy'n ystyried symud hawl tramwy cyhoeddus yn y lle cyntaf yn darganfod beth yw llinell gywir gyfreithiol y llwybr (efallai nad yw hyn yn union yr un fath a sut mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol). Gellir cael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhwydwaith hawliau tramwy yn ein swyddfeydd yng Nghaernarfon a Dolgellau. Mae gan bob hawl tramwy cyhoeddus gyfeirnod unigryw efo enw'r gymuned ble y caiff ei leoli a rhif. Byddwn angen yr wybodaeth yma i brosesu cais.
2. Dylai llinell newydd arfaethedig y llwybr gael ei chynllunio gan ddefnyddio'r canllaw Rhan II. Gallwn ddarparu cyngor anffurfiol yn ystod y cam yma fel bod gan gais y cyfle gorau posibl i lwyddo. Gallwn hefyd gynghori yn gynnar os yw'r cynnig yn debygol o lwyddo. Y cyswllt cyntaf yw'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy i'r ardal briodol.
3. Mae hi'n gwneud synnwyr i ymgynghori gyda thrigolion lleol a defnyddwyr y llwybr cyn cyflwyno cynnig ffurfiol i'r Cyngor er mwyn canfasio eu barn yn gynnar ac felly leihau'r siawns o dderbyn gwrthwynebiadau ar ôl talu ffi'r cais.
4. Codi hysbysiad ger y rhan sydd i'w wro gan esbonio beth yw'r gwyrriad arfaethedig gan ofyn am sylwadau ac awgrymiadau gan y rhai sy'n defnyddio'r llwybr. Dylid cynnwys cynllun ar raddfa fawr sy'n dangos y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn yr ardal (efallai y byddwn yn gallu eich helpu gyda hyn).
5. Cysylltu â chynrychiolwyr lleol grwpiau defnyddwyr sydd â diddordeb a gofyn am eu hymateb. Byddwn yn gallu darparu manylion cysylltu ar gyfer cynrychiolwyr o Gymdeithas y Cerddwyr, y Gymdeithas Mannau Agored a'r Cyngor Cymuned a hefyd Cymdeithas Ceffylau Prydain a'r Clwb Teithio Beicwyr (yn achos llwybrau ceffyl) a'r Gymdeithas Yrru Brydeinig (yn achos cilffyrdd cyfyngedig).

## **Y cais**

Byddwn yn darparu copïau o'r ffurflen gais, a dylid anfon hon atom unwaith fo'r bwriad wedi ei derfynu, ynghyd â map yn dangos y gwyrriad arfaethedig.